# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Gofal Llanddarog**

**Ysgol Llanddarog**
**Llanddarog**
**SA32 8BJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mawrth, 24 Ebrill 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Clwb Gofal Llanddarog wedi'i leoli yn neuadd ffreutur yr ysgol ym mhentref gwledig Llanddarog. Mae'n cynnig gofal y tu allan i oriau ysgol ar gyfer hyd at 24 o blant dan 12 oed. Cafodd y clwb ei gofrestru yn 2000 o dan reolaeth Menter Cwm Gwendraeth a'r unigolyn cyfrifol ar ran y sefydliad yw Nerys Burton. Kelly Evans yw'r person â gofal.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yng Nghlwb Gofal Llanddarog yn hapus ac yn dangos mwynhad. Mae ganddynt rai dewisiadau ac maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Mae'r staff yn ymwybodol o hoffterau'r plant ond collir cyfleoedd i ddatblygu sgiliau annibyniaeth y plant. Roedd gan y plant ofod chwarae digonol gydag adnoddau a oedd yn addas i'w hoedran ac o fewn cyrraedd ar y cyfan.

### 2. Gwelliannau

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom hysbysu'r unigolyn cyfrifol nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau o ran cadw'r plant yn ddiogel gan fod y brif fynedfa wedi parhau heb ei chloi drwy'r amser. Cafodd hynny ei unioni cyn diwedd y broses arolygu a gwnaeth yr unigolyn cyfrifol gadarnhau bod cloch wedi'i gosod a bod yr ystafell yn parhau ar glo. Gwnaethom argymell y dylid diweddaru'r polisi amddiffyn plant i gynnwys rhifau ffôn ar gyfer gwneud atgyfeiriadau. Cafodd hwn ei dderbyn cyn diwedd yr arolygiad. Gwnaethom hefyd argymell y dylai'r arweinwyr lunio rhestr wirio o asesiadau risg dyddiol, i'w chwblhau gan y staff cyn i'r sesiwn ddechrau. Roedd yr arweinwyr wedi dyfeisio rhestr wirio a derbyniwyd copi gan AGC yn dilyn yr arolygiad.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymell y canlynol:

- Dylai staff ddatblygu amser byrbryd i annog sgiliau annibyniaeth y plant, a bod y plant yn rhan o'r gwaith paratoi a chlirio
- Dylai'r staff ymgyfarwyddo â'r polisi diogelu fel eu bod yn hyderus o ran y gweithdrefnau os oes angen iddynt wneud atgyfeiriad
- Dylai'r arweinwyr sicrhau bod yr holl ffurflenni damweiniau yn cael eu llofnodi gan y rhieni a'r staff
- Dylid cofnodi manylion personol pob plentyn ar ffurflen unigol ac nid ar yr un ffurflen â brodyr a chwiorydd
- Dylid cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael y plant ar gyfer pob sesiwn
- Dylid sicrhau bod manylion cyswllt sylfaenol ar gyfer yr holl staff sy'n bresennol yn y gwasanaeth

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu'n dda yn y clwb. Roeddent yn dweud wrthym eu bod yn mwynhau dod i'r clwb, chwarae gyda'u ffrindiau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau megis gwaith lliwio, gwneud lluniau a chwarae yn yr awyr iach. Fodd bynnag, gallai cyfleoedd pellach gael eu datblygu i roi cymorth i'r plant ddod yn fwy annibynnol yn ystod amser byrbryd.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau ac yn mynegi eu hunain.

Gwnaethom arsylwi ar y plant yn dewis gweithgareddau a oedd ar gael iddynt. Aeth rhai plant i ddewis gweithgareddau eraill o'r adnoddau ar y silff. Gwnaeth y rhan fwyaf chwarae gyda'i gilydd tra oedd eraill wedi dewis eistedd gerllaw'r staff. Rhoddwyd dewis i'r plant i gyd rhwng brechdan ham neu gaws ar gyfer byrbryd. Clywsom y plant yn dweud wrth y staff eu bod wedi cael digon ar eu byrbryd ac nad oeddent eisiau rhagor. Roedd dewis da o weithgareddau celf a chrefft ar gael i'r plant a gwnaeth nifer ohonynt ddewis gwneud cerdyn Sul y Mamau neu addurno cylch allweddi pren ar siâp calon. Clywsom un plentyn yn gofyn a allai fynd y tu allan i chwarae a dywedwyd wrtho y gallai fynd yn hwyrach.

Mae'r plant yn hyderus bod ganddynt lais.

### 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol ac maent yn teimlo'n ffyddiog y bydd eu teimladau'n cael eu hystyried.

Gwelsom y plant yn gwenu ac yn sgwrsio â'u ffrindiau ac oedolion. Roedd y plant yn gallu nodi gyda phwy y byddent yn siarad â nhw pe byddent yn teimlo'n drist, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y clwb. Gwnaeth y plant sgwrsio â ni'n hyderus a'n cynnwys ni yn eu chwarae. Gwnaethant ofyn i ni pam yr oeddem ni yno. Gofynnwyd i'r plant nad oeddent i'w gweld yn chwarae os oeddent eisiau unrhyw beth arall allan. Gwnaeth un plentyn gynhyrfu ar ôl taro ei ben a chafodd sicrwydd a chwtsh gan aelod o staff tan iddo fod yn barod ailddechrau chwarae.

Mae'r plant yn hapus, yn ymlaciedig ac yn ddiogel. Mae'r plant wedi ymgartrefu'n dda ac yn hapus ac maent yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau.

## 1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio mewn modd cadarnhaol â'u cyfoedion a'r oedolion, ond mae angen atgoffa rhai ohonynt am ymddygiadau cadarnhaol.

Gwelsom y plant yn chwarae mewn modd cydweithredol drwy gydol sesiwn y clwb. Gwnaethant liwio cylchoedd allweddi pren a chardiau Sul y Mamau. Gwelsom y plant hŷn yn helpu'r plant iau drwy eu harwain wrth iddynt gario eu platiau a'u cwpanau yn ôl i'r sinc. Clywsom y plant yn gofyn i'w gilydd am fenthyg eitemau roeddent yn eu defnyddio, gan ddefnyddio "os gweli di'n dda" a "diolch": "Gaf i fenthyg dy finiwr, os gweli di'n dda?" Roedd y plant yn estyn y fowlen ffrwythau i'w gilydd yn ystod amser byrbryd, gan gymryd ambell ddarn i'w hunain. Roedd grŵp o blant yn gweithio gyda'i gilydd i gofnodi timau a sgoriau pêl-droed. Roedd y plant yn chwilfrydig i wybod pam oeddem ni yno ac roeddent yn mwynhau dweud wrthym beth roeddent yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn â'i gilydd ac â'r ymwelwyr a'r staff.

## 1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cymryd rhan mewn chwarae a arweinir ganddynt hwy eu hunain yn y clwb hwn ac maent yn ymddiddori yn yr hyn y maent yn ei wneud. Maent weithiau'n dewis beth yr hoffent ei wneud.

Gwelsom y plant yn dewis gweithgareddau a roddwyd ar gael iddynt ac roedd y rhain yn cynnwys offer celf a chrefft yn bennaf. Dywedodd y plant wrthym y gofynnid iddynt pa weithgareddau roeddent eu heisiau allan o dro i dro. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau mynd allan i chwarae, ac maent yn gwneud hynny o dro i dro. Ni welsom y plant yn chwarae yn yr awyr agored ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom fod rhai plant yn cymryd rhan yn llawn yn y gweithgareddau crefftau ar gyfer Sul y Mamau ac roedd y rhain yn cynnwys lliwio cylchoedd allweddi a dylunio cardiau. Roedd y plant yn siomedig pan wnaeth y rhieni gyrraedd i'w casglu gan nad oeddent wedi gorffen.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae ac yn ymgolli ynddo.

## 1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Rhoddir rhai cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth.

Roedd y plant yn ymddangos yn hyderus wrth ddewis y gweithgareddau a oedd ar gael. Roedd y plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau creadigol fel canu, perfformio a dylunio cylchoedd allweddi. Fodd bynnag, ni roddwyd cyfleoedd i'r plant fod yn llwyr annibynnol ar amser byrbryd gan fod yr oedolion yn trosglwyddo byrbrydau a diodydd a oedd wedi eu paratoi'n barod ar gyfer y grŵp cyfan. Roedd y plant yn dychwelyd eu platiau a'u cwpanau ar ôl gorffen ac roedd y plant hŷn yn helpu i frwsio'r llawr ar ôl amser byrbryd.

Mae plant yn datblygu eu hannibyniaeth, ond mae rhai cyfleoedd yn cael eu colli yn ystod amseroedd byrbryd.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gofal cadarn sy'n diwallu anghenion y plant. Maent yn creu amgylchedd ymlaciedig lle mae plant yn cael eu goruchwylio wrth chwarae. Nid yw'r holl staff yn glir ac yn hyderus o ran gweithdrefnau amddiffyn plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi derbyn hyfforddiant angenrheidiol er mwyn cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae meysydd i'w gwella o ran gweithdrefnau amddiffyn plant.

Roedd dau aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant wedi'i ddiweddaru mewn cymorth cyntaf ac amddiffyn plant ac roedd pob un o'r tri aelod o staff wedi cwblhau cwrs hyfforddiant mewn hylendid bwyd. Rhoddwyd byrbrydau o frechdanau a ffrwythau i'r plant ac roedd ganddynt ddŵr i'w yfed. Roedd y plant i gyd yn golchi eu dwylo cyn eistedd ar gyfer byrbryd. Gwnaethom drafod senarios amddiffyn plant gyda'r staff ac nid oedd pob un ohonynt yn hyderus o ran y gweithdrefnau y byddent yn eu dilyn pe bai angen iddynt wneud atgyfeiriad. Clywsom y staff yn rhoi negeseuon diogelwch i'r plant pan oeddent yn sefyll ar gadeiriau yn hytrach nag eistedd arnynt.

Mae'r staff yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach y rhan fwyaf o'r amser ond mae angen i rai ohonynt ymgyfarwyddo â'u gweithdrefnau amddiffyn plant.

### 2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae'r staff yn atgoffa'r plant i ryngweithio'n briodol ac maent yn canmol ymddygiad cadarnhaol. Maen nhw'n mwynhau treulio amser gyda'r plant.

Clywsom y staff yn canmol y plant am waith lliwio a oedd wedi ei wneud: “O, mae hynny'n ffantastig gyda ti!” Clywsom y staff hefyd yn canmol y plant a oedd yn perfformio caneuon ac yn adrodd yr hyn roeddent wedi'i ddysgu yn yr ysgol. Clywsom y staff hefyd yn atgoffa plant am beth na ddylent ei wneud, gan ddweud wrth blant a oedd wedi mynd y tu ôl i uned i guddio: "Na, rydych chi'n gwybod na ddylech fynd fan 'na." Dywedodd y rhieni wrthym fod y staff yn ofalgar ac yn gefnogol.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda.

### 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn caniatáu i'r plant arwain eu chwarae eu hunain, ac maent yn chwarae ochr yn ochr â hwy os yw'r plant yn dymuno hynny.

Roedd y staff yn darparu gweithgareddau ar gyfer y plant ac roeddent yn eu hannog i fynd i chwarae gyda'r hyn a oedd ar gael. Gwelsom staff yn eistedd ac yn sgwrsio â'r plant am eu diwrnod yn yr ysgol, gan ymuno yn y gwaith crefft. Roedd y staff yn sicrhau bod gan y plant fynediad rhydd i'r toiled.

Mae'r staff yn weithredol wrth hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae’r gwasanaeth yn cael ei redeg o neuadd ffreutur ysgol leol sydd ar dir yr ysgol. Mae’n sicrhau bod yr amgylchedd yn lân, ei fod yn cael ei gynnal a’i gadw’n dda, a bod y man yn addas ar gyfer ystod oedran y plant sy’n derbyn gofal. Roedd rhai problemau o ran sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac aethpwyd i'r afael â’r rhain ar unwaith.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod yr amgylchedd yn lân.

Roedd yr ardal lle roedd y plant yn derbyn gofal yn lân. Ni welwyd unrhyw beryglon yn ystod yr arolygiad ond nid oedd unrhyw asesiadau risg na rhestrau gwirio ar gael i sicrhau diogelwch cyn i'r plant gyrraedd. Gwelsom un cofnod o ymarfer tân a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2018. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn cynnal ymarferion tân bob tymor. Wrth i ni gyrraedd y gwasanaeth, roeddem yn gallu cael mynediad at yr ystafell gan fod y prif ddrws heb ei gloi a pharhaodd heb ei gloi drwy gydol y sesiwn. Gwnaethom lofnodi llyfr ymwelwyr a gwelsom ei fod yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd. Roedd yr holl offer trydanol wedi cael profion dyfeisiau cludadwy ym mis Chwefror 2018.

Mae'r arweinwyr wedi gwneud gwelliannau i sicrhau diogelwch yr amgylchedd bob amser.

### 3.2 Pa mor dda mae’r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd sydd o faint digonol ar gyfer nifer y plant sy’n bresennol.

Roedd y gofal yn cael ei ddarparu mewn ffreutur ysgol ac roedd gan y staff a'r plant fynediad i'r adnoddau a storiwyd yno. Roedd ganddynt fynediad at ardal awyr agored fawr, sef iard yr ysgol. Ni welsom yr ardal hon yn cael ei defnyddio yn ystod yr arolygiad, a dywedodd y plant wrthym eu bod yn mynd allan weithiau ond y byddent yn hoffi mynd allan yn amlach nag y maent yn ei wneud. Eisteddodd y plant gyda'i gilydd i fwyta wrth fyrddau priodol. Nid oedd unrhyw ardal dawel, er bod clustogau llawr mawr ar gael i'r plant oedd eu heisiau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i blant o bob oedran.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Mae'r plant yn elwa ar gael adnoddau, offer a theganau o ansawdd da.

Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod ganddynt offer ar gyfer chwarae awyr agored megis cylchoedd, peli a batiau. Roedd adnoddau dan do yn cynnwys gemau bwrdd, doliau a phramiau, pecynnau creu breichledi, deunyddiau paentio a chrefftau, a phosau jig-so.

Roedd yr holl offer yn cael eu storio'n ddiogel mewn uned ac ar silffoedd yn y neuadd a oedd yn hygyrch i’r plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r offer o ansawdd da.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Caiff staff eu rheoli'n effeithiol, ond mae angen i arweinwyr sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n gyson ac yn cael eu cwblhau'n gywir bob amser. Mae gan yr arweinwyr systemau ar waith ar gyfer hunanwerthuso. Mae polisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddaru ac ar gael yn y gwasanaeth.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol gan amlaf, ond mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod yr arweinyddiaeth yn effeithiol.

Roedd y datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru ac yn rhoi adlewyrchiad teg o'r hyn a gynigiwyd. Gwelsom gopïau o'r holl bolisïau ac roeddent wedi eu diweddaru. Gwelsom awyrgylch ymlaciedig iawn yn ystod ein hymweliad ac roedd y staff yn hapus yn eu rolau. Gwelsom fod gan yr unigolyn cyfrifol gyswllt rheolaidd ag arweinwyr y gwasanaeth a dywedodd y person â gofal wrthym ei bod yn cael cymorth da.

Mae'r arweinwyr yn rhoi arweinyddiaeth dda.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu system ar gyfer gwerthuso'r gwasanaeth a chynllunio ar gyfer gwelliannau.

Roedd yr arweinwyr wedi casglu safbwyntiau'r plant a'r rhieni gan ddefnyddio holiaduron a lluniwyd adroddiad bob blwyddyn. Gwelsom holiaduron a gwblhawyd gan y plant gan ddefnyddio system o wynebau hapus neu drist. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn ymgynghori â'r plant pan oeddent yn ystyried prynu adnoddau newydd, er mwyn gweld beth yr hoffent ei gael.

Mae systemau priodol ar waith i hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliannau.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r unigolyn cyfrifol yn recriwtio staff yn effeithiol ac yn rheoli adnoddau'n dda, ond dylid gwneud gwelliannau o ran cadw cofnodion.

Roedd yr unigolyn cyfrifol wedi gofyn am yr holl wybodaeth berthnasol am addasrwydd y staff ar gyfer eu swyddogaethau cyn iddynt ddechrau gweithio. Gwelsom gofnodion goruchwylio ac arfarnu. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r plant a gwelsom rai ffurflenni cofrestru a oedd yn cynnwys manylion brodyr a chwiorydd ar yr un ffurflen. Nid oedd yr holl staff yn y gwasanaeth bob amser yn cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael plant yn gyson.

Gwnaethom ganfod nad oedd unrhyw wybodaeth neu fanylion cyswllt ar gael yn y gwasanaeth ar gyfer unrhyw aelod o staff. Gwelsom nad oedd yr holl gofnodion damweiniau wedi'u llofnodi gan rieni/gofalwyr.

Mae angen rheoli’r gwaith o gadw cofnodion staff yn well.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr berthynas dda â staff yr ysgol lle y mae’r clwb wedi ei leoli. Ceir perthynas dda hefyd â’r rhieni.

Gwelsom drafodaeth hamddenol rhwng y rhieni a’r staff pan oeddent yn dod i nôl eu plant, a dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym mai felly yr oedd y rhieni yn cael gwybodaeth am unrhyw ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Dywedodd rhai o'r rhieni wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a gwnaethant ganmol natur ofalgar y staff. Dywedodd rhai rhieni wrthym nad oeddent yn teimlo bod y cyfathrebu bob amser yn effeithiol a chyson.

Ar y cyfan, mae partneriaethau da gan y clwb y tu allan i oriau ysgol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y canlynol:

- Dylai'r staff ddatblygu amser byrbryd er mwyn annog sgiliau annibyniaeth a chynnwys y plant yn y gwaith o baratoi a chlirio
- Dylai staff ymgyfarwyddo â'r polisi diogelu fel eu bod yn hyderus o ran y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai angen iddynt wneud atgyfeiriad
- Dylai'r arweinwyr sicrhau bod yr holl ffurflenni damweiniau yn cael eu llofnodi gan y rhieni a'r staff
- Dylid cofnodi manylion personol pob plentyn ar ffurflenni unigol ac nid ar yr un ffurflen â brodyr a chwiorydd
- Dylid cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael y plant ar gyfer pob sesiwn
- Dylid sicrhau bod manylion cyswllt sylfaenol ar gael ar gyfer yr holl staff sy'n bresennol yn y gwasanaeth
- Dylid diweddaru'r polisi amddiffyn plant i gynnwys rhifau ffôn ar gyfer gwneud atgyfeiriadau
- Dylai'r arweinwyr baratoi rhestr wirio ddyddiol ar gyfer asesiadau risg, i'w chwblhau gan staff cyn i'r sesiwn ddechrau

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd yn gynt yn dilyn derbyn pryder yn ymwneud â sut y gwnaeth y staff ddelio â damwain.

Cynhaliodd un arolygydd ymweliad dirybudd â'r  gwasanaeth am gyfanswm o ddwy awr a hanner, a gwelsom yr holl gofnodion ym mhrif swyddfa'r sefydliad am gyfanswm o awr.

- Gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal roeddent yn ei dderbyn yng Nghlwb Gofal Llanddarog
- Gwnaethom siarad â nifer o blant, derbyn dau holiadur rhiant, a chwblhau chwe holiadur gyda phlant
- Gwnaethom siarad â staff ac arweinwyr
- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion, gan gynnwys ffeiliau'r plant, ffeiliau'r staff, polisïau a gweithdrefnau, yr adroddiad ansawdd gofal, asesiadau risg, hyfforddiant staff, ac arfarniadau'r staff

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal y tu allan i oriau ysgol** |
| **Unigolyn cyfrifol** | **Nerys Burton** |
| **Person â gofal** | **Kelly Evans** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Ystod oedran y plant** | **Rhwng 3 ac 11 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau, 3.30pm tan 6pm yn ystod tymor yr ysgol yn unig** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **12 Mai 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **8 Mawrth 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |